Cyngor y Gweithlu Addysg

Education Workforce Council

Cyngor y Gweithlu Addysg

Canllaw Ymddygiad ac Ymarfer Da i Arweinwyr

Medi 2022

Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3

2. Y Cod.....3

3. Codi eich ymwybyddiaeth.....3

4. Torri’r Cod 4

5. Sut gallwn ni eich cefnogi chi ymhellach 6

1. Cyflwyniad

Mae gan arweinwyr mewn addysg amrywiaeth eang o gyfrifoldebau ac atebolrwydd, ac maent yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod dysgwyr a phobl ifanc yn cael eu haddysgu, eu meithrin a'u hannog. Rydym yn gwybod bod ein harweinwyr yng Nghymru yn weithwyr proffesiynol hynod ymroddedig.

Mae'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol (y Cod) yn amlinellu'r egwyddorion allweddol y mae disgwyl i gofrestrai eu dilyn yn ei ymddygiad a'i ymarfer o ddydd i ddydd. I ategu'r Cod, mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) wedi cyhoeddi nifer o ganllawiau gyda'r nod o gynorthwyo pob cofrestrai, gan gynnwys arweinwyr, i ddeall a chymhwyso'r Cod. Gall y cod a'r canllawiau gael eu lawrlwytho o wefan CGA.

Fodd bynnag, datblygwyd y canllaw hwn yn benodol i arweinwyr addysg a bydd yn ddefnyddiol i bobl mewn rolau arwain uwch a chanol.

2. Y Cod

Fel Arweinydd, byddwch yn gyfarwydd â phob rhan o'r Cod, gan ei ddefnyddio'n bwynt cyfeirio pwysig. Bydd dysgwyr, pobl ifanc, cydweithwyr a'r cyhoedd yn eich ystyried yn esiampl, rhywun y mae disgwyl iddo gynnal y Cod a'i 5 egwyddor allweddol:

1. **Cyfrifoldeb Personol a Phroffesiynol**
2. **Unplygrwydd Proffesiynol**
3. **Cydweithio**
4. **Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol**
5. **Dysgu Proffesiynol**

Fodd bynnag, a chithau'n weithiwr proffesiynol, gallai ymddygiad amhriodol yn eich bywyd personol neu broffesiynol effeithio yn y pen draw ar eich swydd fel arweinydd, eich cofrestriad gyda CGA ac, o bosibl, eich cymhwysedd i barhau i ymarfer.

3. Codi eich ymybyddiaeth

Yn eich rôl fel arweinydd, byddwch yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau ac adnoddau yn ddyddiol a byddwch yn hunanymwybodol tu hwnt er mwyn bod yn y sefyllfa orau posibl i gyflawni eich cyfrifoldebau.

Serch hynny, ar adegau, ni waeth pa mor fedrus neu hunanymwybodol y mae arweinydd, gall wneud camgymeriad, gamfarnu neu wneud penderfyniad anghywir sydd, yn y pen draw, yn arwain at fwrw amheuaeth am ei ymddygiad.

Trwy ddefnyddio ein profiad o'r mathau o ymddygiad a welwyd yn ein gwaith achos priodoldeb i ymarfer, rydym wedi amlygu rhai o'r themâu cyffredin sydd wedi arwain at gyfeirio arweinwyr addysg at CGA.

Gall yr enghreifftiau fod yn gysylltiedig â'i gilydd a gall ymddygiad gwmpasu nifer o deipiau.

Math o gamymddygiad a chamarfer	Math o ymddygiad (nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr)
Camreoli ariannol	• Torri gweithdrefnau/rheoliadau ariannol sy'n arwain at gamreoli • Defnyddio cyllid, neu eiddo, at fudd personol neu broffesiynol • Peidio ag ymddwyn gydag uniondeb a bod yn atebol
Llywodraethu ac atebolrwydd	• Toriadau'n gysylltiedig â llywodraethu ac atebolrwydd • Anwybyddu polisïau a gweithdrefnau • Peidio â sefydlu a chynnal perthynas waith broffesiynol gyda'r corff llywodraethu neu'r gyfarwyddiaeth berthnasol • Bod yn anonest gyda'r corff llywodraethu neu'r gyfarwyddiaeth, gan beidio â rhoi gwybod lawn iddynt • Torri cyfreithiau statudol, fel cydraddoldeb a diogelu data
Torri ffiniau proffesiynol	• Camddefnyddio grym a'r swydd • Bwlio, dychryn ac aflonyddu ar staff • Delio â dysgwyr, pobl ifanc a/neu staff yn anghyfartal • Peidio â chynnal ffiniau proffesiynol gyda chydweithiwr, dysgwr neu berson ifanc • Peidio â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gywir
Peryglu iechyd, diogelwch a lles dysgwyr a/neu staff (gan gynnwys diogelu)	• Peidio â chynnal camau rhesymol i sicrhau bod iechyd a diogelwch dysgwyr, pobl ifanc a/neu staff yn cael eu cynnal yn ddigonol • Peidio â chynnal, na chofnodi, asesiadau risg • Peidio â sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn ar deithiau allanol • Peidio â chofnodi digwyddiadau, rhoi gwybod amdanynt na chadw cofnodion cywir ohonynt
Anonestrwydd	• Ffugio dogfennau • Camarfer mewn asesiadau a/neu arholiadau • Darparu gwybodaeth gelwyddog naill ai ar lafar a/neu yn ysgrifenedig • Dwyn cyllid, camreoli ariannol
Troseddau	• Troseddau sy'n tanseilio enw da proffesiynol

4. Torri'r Cod

Gan gadw'r uchod mewn cof, mae'r isod yn adlewyrchu achosion pan fu cofrestreion mewn swyddi arwain yn destun achosion priodoldeb i ymarfer CGA.

Rydym yn cydnabod bod mwyafrif helaeth yr arweinwyr yn ymddwyn yn gwbl broffesiynol, fodd bynnag, ym mhob un o'r achosion hyn, torrwyd y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol yn glir. Cafodd cofrestreion amrywiaeth o gosbau disgyblu gan gynnwys, mewn ambell achos, cael eu hatal rhag gweithio yn y gweithlu addysg yn y dyfodol.

Roedd cofrestrai mewn swydd arwain:

- wedi methu cofnodi arian a gafwyd gan ddysgwyr, cadwodd yr arian gartref, methodd ei roi yn y banc a diwygiodd y dyddiadau gwreiddiol ar y sieciau a gafodd
- wedi ffugio'r cydlofnod ar sieciau'r ysgol cyn eu cyfenwid am arian at ddefnydd personol
- wedi anwybyddu camarfer yn gysylltiedig ag asesiadau, gan fod hynny'n ffordd o weithio a 'dderbyniwyd' yn y sefydliad

- llofnodi ffurflenni datganiad yr Arholiadau Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol i gadarnhau bod holl ganllawiau'r corff arholi wedi cael eu dilyn yn briodol, gan wybod nad oedd hynny'n wir
- yn gysylltiedig â ffugio llofnodion ar ffurflenni asesu ac, o ganlyniad, collodd y contractwr gyllid gan Lywodraeth Cymru
- wedi manteisio ar ei rôl trwy fwlio ac erlid aelodau staff
- wedi gwahaniaethu'n agored yn erbyn aelodau staff oherwydd eu rhywedd a'u tras ethnig
- wedi ymddwyn yn amhriodol gyda dysgwr ar safle'r ysgol ar ôl oriau ysgol
- wedi ymddwyn yn amhriodol gyda chydweithwyr ar safle gwaith, a gafodd ei recordio'n gudd a'i rannu ar y cyfryngau cymdeithasol;
- wedi peri risg i ddysgwyr trwy anwybyddu rheoliadau iechyd a diogelwch ac osgoi cael cadarnhad gan y corff llywodraethu i ddatblygu'r ardal chwarae
- wedi methu, ar sawl achlysur, dilyn gweithdrefnau diogelu plant a gyfrannodd at niwed difrifol i'r bobl ifanc dan sylw
- wedi torri rheolau data'n ddifrifol trwy rannu gwybodaeth gyfrinachol am ddysgwyr gyda phartïon allanol
- wedi methu dilyn gweithdrefnau ar gyfer ymweliadau a theithiau addysgol, gan beri risg i ddysgwyr a phobl ifanc
- yn absennol yn gyson, heb awdurdod, o'i ddyletswyddau, yn groes i'r polisi absenoldeb
- wedi methu dilyn y polisi a'r gweithdrefnau recriwtio trwy benodi aelod o'i deulu heb i'r swydd gael ei hysbysebu
- wedi'i gael yn euog o droseddau rhyw yn erbyn aelod staff yn dilyn cyfnod o aflonyddu cyson yn y gweithle
- wedi'i gael yn euog o dyfu a chyflenwi cyffuriau
- wedi'i gael yn euog o ddwyn, ar ôl gamblo ar-lein gan ddefnyddio arian yr ysgol

Dyma ein cyngor:

Gofynnwch i chi'ch hun: Os byddwch yn mynd ati i weithredu mewn ffordd benodol, naill ai yn eich bywyd preifat neu broffesiynol, a fydd eich ymddygiad yn cyd-fynd â disgwyliadau Cod CGA, neu'n groes i'r Cod?

Os aiff pethau o le: Gallai peidio â gweithredu olygu'ch bod chi'n torri'r Cod. Peidiwch â'i anwybyddu a **gweithredwch yn gynnar.**

Byddwch yn onest

Llwybr cyflymach at ganlyniad cadarnhaol yw bod yn onest am yr hyn sydd wedi digwydd. Cymerwch gyfrifoldeb lle y mae angen i chi wneud. Osgowch roi'r bai ar eraill, byddwch yn atebol.

Gofynnwch am gyngor neu help proffesiynol

Efallai na fyddwch yn gallu delio â hyn ar eich pen eich hun. Gofynnwch am gyngor a chymorth (e.e. undeb llafur, rhwydwaith proffesiynol, mentor, uwch arweinydd arall).

Gallai hynny eich helpu i benderfynu ar y dull gorau i'w ddilyn yn broffesiynol

Myfyriwch ar unrhyw gyngor a roddwyd i chi ac ystyriwch beth yw'r ffordd orau o symud ymlaen i ddatrys y sefyllfa

Atgoffwch eich hun eto am y disgwyliadau sydd arnoch i gynnal y Cod, yn enwedig o gofio eich rôl gyfrifol.

Ystyriwch fod hyn yn gyfle i ddiogelu neu adfer eich unplygrwydd proffesiynol.

Gallai cyfeirio'ch hun at CGA fod yn briodol.

Cadwch at ddatrysiad, dysgwch ohono a symudwch ymlaen.

5. Sut gallwn ni eich cefnogi chi ymhellach

- Mae CGA yn cynnig cyflwyniadau sy'n canolbwyntio ar briodoldeb i ymarfer. Os hoffech chi neu eich cyflogwr drefnu cyflwyniad yn y gweithle, cysylltwch â gwybodaeth@cga.cymru
- Mae Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA i Gofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, a gwybodaeth am waith priodoldeb i ymarfer CGA, ar gael ar ei wefan.
- Dylai unrhyw ymholiadau gael eu cyfeirio at y tîm priodoldeb i ymarfer ar priodoldebiymarfer@cga.cymru.

Cedwir pob hawl © Cyngor y Gweithlu Addysg 2022